Leyla Helvaci

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Mae gennyf gefndir cryf mewn datblygu aelodaeth a rheoli gwirfoddolwyr, ac rwy'n frwd am degwch, a byddai hyn, yn fy nhyb i, yn fy ngwneud yn ychwanegiad gwych i Fwrdd CGGC. Rwyf wedi cefnogi cannoedd o fudiadau gwirfoddol yn fy rôl bresennol, gan ddeall eu heriau unigryw a cheisio dod o hyd i ddatrysiadau. Rwy'n rheoli nifer o baneli cyllido, yn rhoi cymorth i bobl i ymgeisio ac yn cynnig datblygiad wedi'i deilwra i helpu mudiadau i ffynnu mewn tirwedd fyth-newidiol. Rwyf wedi gweithio gyda grwpiau amrywiol, yn eu helpu gyda llywodraethiant, datblygu arweinyddiaeth a chreu adnoddau. Mae'r profiad hwn wedi rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i mi o'r hyn sydd ei angen ar fudiadau llawr gwlad a sut gall meddwl yn strategol wneud gwahaniaeth go iawn. Trwy fy ngwaith, ymuno â rhaglenni a gwirfoddoli gydag aelodau CGGC fel Cymorth i Fenywod Caerdydd, Girlguiding Cymru, a RhCM Cymru, rwyf wedi datblygu brwdfrydedd go iawn dros gefnogi gwirfoddolwyr a hyrwyddo tegwch. Fel aelod o Fwrdd Cyllido Prosiect CGGC, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun yr effaith ffantastig y mae CGGC yn ei chael ar y sector, ac rwy'n gyffrous i helpu i adeiladu ar hynny. Rwy'n awyddus i ddod â'm mhrofiad, fy nghreadigrwydd a'm meddylfryd strategol i'r Bwrdd er mwyn helpu CGGC i barhau i rymuso ei aelodau a hybu newid cadarnhaol ledled Cymru.